**ELL 03-00(p.3)**

# Adroddiad y Tasglu Sgiliau

## Diben

1. Cyflwyno adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru ar gyfer sylwadau'r Pwyllgor.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad y Tasglu ac yn rhoi sylwadau ar ei argymhellion.

## Amseriad

3. Cyhoeddwyd a dosbarthwyd Adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru ar gyfer ymgynghori arno ar 18 Hydref. Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau hyd 20 Rhagfyr a bydd angen i'r Pwyllgor roi ei sylwadau erbyn diwedd y cyfnod hwnnw.

## Cefndir

4. Sefydlwyd Tasglu Sgiliau Cymru gan y Cabinet ym mis Tachwedd 1999 er mwyn cymryd golwg trawsbynciol ar oblygiadau strategol canfyddiadau astudiaeth Sgiliau Dyfodol Cymru, ac i gynnig argymhellion i'r Cynulliad ar strategaeth sgiliau. Mae Sgiliau Dyfodol Cymru yn darparu gwybodaeth ar y sgiliau sydd ar gael o fewn y gweithlu, a sut y maent yn cymharu â'r sgiliau hynny y mae cyflogwyr yn eu mynnu ar hyn o bryd a dros y 5 mlynedd nesaf. Cylch gwaith y Tasglu oedd dadansoddi canfyddiadau'r astudiaeth, ynghyd â data allweddol arall, ac awgrymu sut y gallai'r addysg a hyfforddiant a ddarparwn ymateb yn fwy effeithiol i'r anghenion sgiliau a gafodd eu henwi.

5. Amgaeir adroddiad y Tasglu yn Atodiad A. Mae'r adroddiad yn amlinellu ystod o gynigion ar gyfer mynd i'r afael ag agendorau a diffygion sgiliau, a sicrhau bod y systemau yng Nghymru yn barod i gyflenwi'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gwella perfformiad economaidd. Mae'r adroddiad yn argymell gweithredu er mwyn:

- gwneud yn sir bod y sgiliau a gyflenwir yn cyd-fynd â'r sgiliau hynny sydd eu hangen i ddatblygu economi fwy llewyrchus;
- gwella addysg a hyfforddiant i roi'r sgiliau angenrheidiol i unigolion ar gyfer byd gwaith a thrwy gydol eu bywyd;

- annog cwmnïau i hyfforddi er mwyn diwallu eu hanghenion sgiliau eu hunain ac addysgu unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad sgiliau eu hunain;
- cael gwared â rhwystrau a’i gwneud yn haws i *bawb* gael gafael ar hyfforddiant ac addysg; a hefyd
- gwneud pobl yn fwy ymwybodol o faterion sgiliau.

Ymhlith argymhellion allweddol yr adroddiad, mae:

- datblygu strategaeth economaidd sydd wedi’i chanolbwyntio’n fanwl, sy’n clustnodi’r sectorau a fydd yn cynhyrchu’r lefelau CMC angenrheidiol mewn 5/10 mlynedd. Cyfrennir at y strategaeth gan yr agenda datblygu sgiliau, a bydd y strategaeth yn ei thro yn cyfrannu at yr agenda;
- datblygu dull seiliedig ar sectorau o fynd ati i asesu a mynd i’r afael ag anghenion sgiliau, gyda chanolfannau rhagoriaeth yn darparu hyfforddiant arbenigol i ddiwallu’r anghenion hyn;
- datblygu strategaeth sgiliau TGCh; gyda chymorth panel arbenigol;
- sefydlu hawl i addysg a hyfforddiant am ddim hyd lefel 3 i bobl ifanc **ac** oedolion;
- datblygu rhaglen sgiliau galwedigaethol flaengar o ansawdd uchel, a fydd ar gael drwy gydol bywyd gwaith, gyda blaenoriaeth i ehangu a datblygu prentisiaethau modern;
- gwella cyfleoedd i oedolion ennill sgiliau sylfaenol;
- datblygu dull wedi strwythuro’n well o drefnu profiad gwaith, er mwyn gwella ansawdd lleoliadau a’u gwneud yn fwy perthnasol;
- creu canolfan ragoriaeth ar gyfer sgiliau rheoli mewn mentrau bach a chanolig eu maint;
- cyflwyno lwfans cynhaliaeth dysgu ar gyfer pobl ifanc; a hefyd
- paratoi ymgyrch farchnata fawr a pharhaus yn pwysleisio manteision gwella sgiliau, a pheryglon peidio â’u gwella.

6. Cyhoeddodd Tasglu Sgiliau Lloegr ei adroddiad terfynol ym mis Mehefin eleni. Roedd yr adroddiad hwnnw yn argymell y dylid darparu addysg a hyfforddiant am ddim i bobl ifanc er mwyn iddynt ennill cymwysterau lefel 3, ac i oedolion er mwyn iddynt ennill cymwysterau lefel 2. Ystyriodd Tasglu Sgiliau Cymru y dylem anelu’n uwch, ac amcanu at gymwysterau lefel 3 ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, gan awgrymu y dylid rhoi hawl i addysg a hyfforddiant am ddim tuag at gymhwyster lefel 3 i bawb, beth bynnag fo’u hoedran.

7. Bydd Cadeirydd y Tasglu, Brian Connolly, yn mynychu’r cyfarfod i gyflwyno’r adroddiad ac i ateb cwestiynau oddi wrth aelodau’r Pwyllgor.

**Ystyriaeth**

8. Mae gwellcymru.com yn cynnwys addewid i baratoi Cynllun Gweithredu Sgiliau, gan adeiladu ar ganfyddiadau Sgiliau Dyfodol Cymru. Bydd argymhellion adroddiad y Tasglu, ynghyd â barn y Pwyllgor a’r ymatebion a dderbynnir drwy ymgynghoriad, yn gymorth i sefydlu

fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu Sgiliau hwn. Bydd barn y Pwyllgor ar yr agweddau hynny ar yr adroddiad y byddent yn dymuno iddynt gael eu trosglwyddo i'r Cynllun Gweithredu yn gymorth er mwyn sefydlu'r fframwaith hwn.

**Cydymffurfio**

9. Mae gan y Cynulliad bwerau a drosglwyddwyd iddo o dan Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973, sy'n berthnasol i lawer o'r cynigion yn yr Adroddiad. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio sy'n codi'n uniongyrchol o'r papur hwn, a bydd agweddau cydymffurfio ar gynigion unigol o fewn Adroddiad y Tasglu yn cael eu hystyried wrh iddynt gael eu derbyn ar gyfer penderfynu arnynt. Nid oes materion rheoleidd-dra na phriodoldeb yn gysylltiedig â'r papur hwn.

10. Nid yw'r Tasglu wedi pennu costau ei gynigion, a chaiff y goblygiadau ariannol eu hasesu fel rhan o'r broses o ymateb i'r adroddiad a llunio'r Cynllun Gweithredu Sgiliau.

**Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor roi ei farn ar argymhellion Tasglu Sgiliau Cymru.